# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 1 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Datblygu ac Ymestyn Sefydliadau Diwylliannol

**C6 Janet Davies:** Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu rhoi ar waith er mwyn ehangu'r manteision a fydd yn deillio o ddatblygu ac ymestyn sefydliadau diwyllianol Cymru? (OAQ9942)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae'r manteision o ddatblygu ac ymestyn cyrff diwylliannol yn effeithio ar yr economi, twristiaeth, adfywio cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol a phroffil Cymru dramor.

Cyfarfu Cymru'n Creu am y tro cyntaf ar 26 Chwefror. Yr wyf yn hyderus y bydd aelodau'r grŵp buddiant eang hwn yn gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu diwydiannau diwylliannol.

Cydnabyddir pwysigrwydd economaidd y diwydiannau creadigol hefyd yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.

Mae mentrau ar y gweill gan y Cynulliad Cenedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad i ddatblygu'r sector pwysig hwn o'n heconomi. Mae cysylltiadau gan Gyngor Celfyddydau Cymru, drwy ei gangen Celfyddydau Cymru Rhyngwladol, â llawer o gyrff sydd yn gallu rhoi cyngor am argaeledd grantiau.

Mae Bwrdd Croeso Cymru'n sylweddoli mor bwysig yw twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru ac mae'n paratoi strategaeth ddrafft ar dwristiaeth ddiwylliannol.

Bûm yn bresennol hefyd mewn cyfarfodydd o'r tasglu diwydiannau diwylliannol a thasglu Prydain dramor.

### Prifddinas Diwylliant Ewrop

**C7 Jonathan Morgan:** Pryd y bydd y Gweinidog yn cwrdd nesaf ag Arglwydd Faer Caerdydd i drafod cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008? (OAQ9984)

**Jenny Randerson:** Fel y nodais ddoe, yr wyf wedi ysgrifennu at Mr Goodway gan ei wahodd i gyfarfod â mi i drafod y cymorth y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ei roi i Gaerdydd wrth iddi baratoi ei chais i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Mae Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi gwahodd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd i drafod ei gais.

### Bwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru

**C8 Alun Pugh:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyfarfod â Bwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru i drafod hyfforddiant i arweinwyr? (OAQ9947)

**Jenny Randerson:** Mae'r ddadl a gyflwynwyd gennych yn ddiweddar mewn Cyfarfod Llawn ar 'Farwolaethau yn y Mynyddoedd' wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch y materion diogelwch sydd yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored.

O ganlyniad i hynny, yr wyf yn gwneud trefniadau i gynnull cyfarfod o'r partïon cysylltiedig i drafod cyfleoedd i wella gwybodaeth gyhoeddus, arwyddion a gwell systemau rhybuddio. Un o'r ystyriaethau diogelwch allweddol sydd ynglŷn ag unrhyw weithgaredd awyr agored yw ansawdd yr arolygiaeth. Byddaf yn falch o gyfarfod â Bwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru i drafod y ffordd orau ymlaen wrth wneud unrhyw welliannau angenrheidiol.

**Pwysigrwydd Cyfleusterau Diwylliannol**

**C9 Phil Williams:** Pa ymdrechion sydd wedi'u gwneud i fesur pwysigrwydd cyfleusterau diwylliannol o safbwynt gwella delwedd Cymru? (OAQ9939)

**Jenny Randerson:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y consortiwm diwylliannol Cymru'n Creu ar 26 Chwefror 2001. Cytunodd y consortiwm i ddynodi'r ystadegau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai sydd yn darparu dangosyddion, fel y gellir mesur yn well a darganfod y bylchau yn y sylfaen wybodaeth.

Cyhoeddwyd astudiaeth o effaith economaidd y celfyddydau a'r diwydiannau diwylliannol yng Nghymru, a gomisiynwyd ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, cyn Fwrdd Datblygu Cymru Wledig ac S4C, yn 1998. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y celfyddydau a'r diwydiannau diwylliannol yn cael effaith sylweddol ar economi Cymru.

Mae Prif Weinidog Cymru yn llywyddu mewn digwyddiad pwysig yng ngwesty'r Celtic Manor i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac i hyrwyddo Cymru. Bydd uwch wleidyddion cartref a thramor yn annerch yno.

Yr wyf yn sicr bod y bri rhyngwladol sydd i Gymru ym meysydd chwaraeon a diwylliant yn cyfrannu at ein hymdrechion i ddarbwyllo busnesau tramor bod Cymru'n lle deniadol i fyw a gweithio ynddi.

**Cronfa Loteri Treftadaeth**

**C10 Peter Black:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â'r Gronfa Loteri Treftadaeth yn y pythefnos diwethaf? (OAQ9919) [R]

**Jenny Randerson:** Cyfarfûm â rheolwr Cronfa Treftadaeth y Loteri dros Gymru, Jennifer Stewart, ar 9 Chwefror. Yn y cyfarfod, cefais fy mriffio gan Ms Stewart ar y rhesymau dros ohirio'r cais gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Dinas a Sir Abertawe am arian at Amgueddfa Glan Dŵr Abertawe oddi wrth ymddiriedolwyr y gronfa.

**Prifddinas Diwylliant Ewrop**

**C11 Ieuan Wyn Jones:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr sydd eisoes wedi bod ynghlwm wrth geisiadau llwyddiannus am Brifddinas Diwylliant Ewrop? (OAQ9938)

**Jenny Randerson:** Fe'n hysbyswyd am unigolion a fu ynghlwm wrth reoli ceisiadau llwyddiannus a byddaf yn trafod y mater hwn â chyngor Caerdydd pan gawn gyfarfod.

Mater i ddinasoedd unigol yw penderfynu a ddymunant wneud cais i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 a Chaerdydd yw'r unig ddinas yng Nghymru a ddywedodd y bydd yn ymgeisio.

**Ariannu Pêl-droed ar Lawr Gwlad**

**C12 Richard Edwards:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar ariannu pêl-droed yng Nghymru ar lawr gwlad? (OAQ9923)

**Jenny Randerson:** Penderfynodd y Cynulliad y llynedd fod arian y gostyngiad yn nhreth betio'r pyllau ar gyfer Cymru, sydd ar hyn o bryd yn 5 y cant o gyfanswm y DU ac yn £300,000 yn ôl y rhagolygon, i'w ddyrannu i Gymdeithas Pêl-droed Cymru a'i adneuo gydag Ymddiriedolaeth Gymunedol Cymdeithas Pêl-droed Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar gytundeb y pedair gwlad gartref ac ar boblogaeth Cymru, i'w gario ymlaen hyd Fawrth 2002. Gellir ystyried hyn yn arian newydd i bêl-droed yng Nghymru, a ddefnyddir i helpu pêl-droed ar lawr gwlad.

O hynny, aiff £200,000 at brosiectau refeniw tra bydd Cymdeithas Pêl-droed Cymru'n defnyddio £100,000 ar gyfer gwelliannau i gaeau Cynghrair Cymru. Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Cymdeithas Pêl-droed Cymru hefyd yn derbyn £100,000 oddi wrth Gymdeithas Pêl-droed Cymru a £200,000 oddi wrth Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, o dan y cynllun SPORTLOT, wedi buddsoddi bron i £4 miliwn mewn 43 o brosiectau pêl-droed dros y pedair blynedd diwethaf, fel ei fod yn yn un o'r chwaraeon sydd yn derbyn y cymorth mwyaf yng Nghymru.

**Opera Genedlaethol Cymru**

**C13 Alun Pugh:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyfarfod â swyddogion Opera Genedlaethol Cymru i drafod ei weithgaredd yn y gogledd? (OAQ9948)

**Jenny Randerson:** Cyfarfûm ag Anthony Freud, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a Geraint Talfan Davies, y Cadeirydd, ar 6 Rhagfyr, i drafod gwaith Opera Genedlaethol Cymru.

Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau penodol ynghylch gweithgaredd Opera Genedlaethol Cymru yng ngogledd Cymru. Yr wyf yn ymwybodol bod Opera Genedlaethol Cymru'n cyflwyno tair opera gyflawn yng ngogledd Cymru bob haf. Deallaf hefyd fod rhaglen waith y cwmni'n cynnwys prosiectau addysg gydag ysgolion anghenion arbennig a phrif ffrwd, gweithdai gyda'r nos i gymdeithasau corawl lleol, cyngherddau cyhoeddus am ddim mewn canolfannau siopa, a phartïon cyngerdd i bobl hŷn. Bob blwyddyn, mae'r cwmni'n cyrraedd dros 14,000 o bobl yng ngogledd Cymru yn ystod wythnos ei ymweliad.

**Cydnabyddiaeth Swyddogol i Iaith Arwyddion Prydain**

**C14 Karen Sinclair:** Pa gamau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cymryd i helpu i roi cydnabyddiaeth swyddogol i iaith arwyddion Prydain ar y cyd â Llywodraeth y DU? (OAQ9916)

**Jenny Randerson:** Mae cydnabyddiaeth swyddogol i iaith arwyddion Prydain yn fater i Lywodraeth y DU, sydd ar hyn o bryd yn ystyried argymhellion a gyflwynwyd ar y mater hwn gan y Comisiwn Hawliau Anabledd. Mae hyn yn debygol o olygu ymchwil i'r defnydd o iaith arwyddion Prydain.

Er nad yw'r Cynulliad yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo cydnabyddiaeth swyddogol i iaith arwyddion Prydain, polisi'r Cynulliad yw darparu cyfieithydd iaith arwyddion Prydain ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus pryd bynnag y gofynnir am hynny ac ystyried anghenion pawb sydd â nam synhwyraidd wrth gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer y maes cyhoeddus.

**Prifddinas Diwylliant Ewrop**

**C15 David Melding:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog siarad ag arweinydd Cyngor Sir Caerdydd ynghylch cais Caerdydd i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008? (OAQ9975)

**Jenny Randerson:** Siaredais ddiwethaf ag Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ynghylch cais Caerdydd i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 yn anffurfiol ar 3 Chwefror 2001. Fe'i gwahoddais i gyfarfod â mi i drafod y cymorth y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ei roi wrth helpu Caerdydd i baratoi ei chais. Mae Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi gwahodd cyngor Caerdydd i roi cyflwyniad ynghylch ei gais yn un o'i gyfarfodydd.

**Strategaeth ar gyfer ymdrin â Digwyddiadau Mawr**

**C16 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ystyried sefydlu strategaeth ar gyfer ymdrin â digwyddiadau mawr sydd yn dod i Gymru? (OAQ9985)

**Jenny Randerson:** Mae gwaith ar y gweill eisoes i ddatblygu fframwaith o strategaeth digwyddiadau i sicrhau digwyddiadau mawr i Gymru a'u cadw. Bwrdd Croeso Cymru sydd yn arwain y gwaith, ond bydd yn cydweithio'n agos â'r holl chwaraewyr allweddol. Gan fod gennyf gyfrifoldeb dros ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru, byddaf yn ymddiddori'n frwd yn hynny.

**Hybu Cyfranogiad Mwy gan Ferched ym Myd Chwaraeon**

**C17 Glyn Davies:** Pa bolisïau sydd ar gael ar gyfer hybu cyfranogiad mwy gan ferched ym myd chwaraeon? (OAQ10006)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn awyddus i sicrhau y caiff menywod bob cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon ledled Cymru a llwyr gefnogaf y polisïau a fabwysiadwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Disgrifir y rhain yn y ddogfen a gyhoeddwyd ganddo, 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru—Pobl Ifanc yn Gyntaf'.

Mae'r Cyngor Chwaraeon eisoes wedi mabwysiadu cynllun gweithredu menywod a merched i gynyddu lefelau cyfranogi mewn chwaraeon ymysg menywod a merched. Ei amcan yw haneru'r bwlch yn y lefelau cyfranogi rhwng dynion a menywod erbyn 2005. Mae'r cyngor yn cymryd y mater hwn o ddifrif, fel y gwelais pan gymerais ran mewn fforwm gweithredu menywod a merched yn ddiweddar.

At hynny, eleni, mae'r Cyngor Chwaraeon yn bwriadu cyflwyno cynllun gwobrwyo chwaraeon ysgolion, a fydd yn darparu anogaethau ariannol i ysgolion uwchradd os trefnant ddau neu ragor o weithgareddau ar ôl ysgol i ferched.

**Prifddinas Diwylliant Ewrop**

**C18 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar hynt y gwaith o sicrhau cais Cymru ar gyfer Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008? (OAQ9937)

**Jenny Randerson:** Mater i ddinasoedd unigol yw penderfynu a ddymunant wneud cais i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 a Chaerdydd yw'r unig ddinas yng Nghymru a ddywedodd y bydd yn ymgeisio.

Ymatebodd Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i lythyr oddi wrth Russell Goodway ar 15 Chwefror gan nodi y gallai cyllid cyfatebol fod ar gael i helpu cyngor Caerdydd i baratoi cais i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop. Byddai hynny'n amodol ar ei allu i brofi dadl gwerth am arian dros dderbyn cyllid gan y Cynulliad a sicrwydd, fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cais, y bydd strategaeth celfyddydau a diwylliant gydlynol ar waith i ategu'r cais, a fydd yn ymdrin â'r holl gyfleusterau a datblygiadau. Gofynnwyd i gyngor Caerdydd drefnu cynnal astudiaeth dichonolrwydd ragarweiniol ar y ddwy agwedd hyn i'w chyflwyno gynted ag y bo modd.

**Manteision i Sefydliadau Diwylliannol**

**C19 Jocelyn Davies:** Ym mha fodd y bydd rhoi 'Gwellcymru.com' a'r cytundeb partneriaeth ar waith o fantais sylweddol i sefydliadau diwylliannol Cymru? (OAQ9943) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cronfa Ffilm ar gyfer Cymru**

**C20 Kirsty Williams:** Pa gynnydd sydd wedi bod o safbwynt datblygu cronfa ffilm ar gyfer Cymru? (OAQ9992)

**Jenny Randerson:** Rhoddasom ymrwymiad yn y cytundeb partneriaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cronfa ffilm ar gyfer Cymru i feithrin a hyrwyddo rhagoriaeth sinematig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cyfarfûm â Sgrîn a Chyllid Cymru ar 22 Ionawr, ac fe'm sicrhawyd gan y ddau gorff eu bod yn parhau i archwilio'r cynnig, gyda golwg ar ddefnyddio arian Amcan 1 i sefydlu'r gronfa.

**Rheoliadau Pelenni Plwm**

**C21 David Davies:** A wnaethpwyd unrhyw asesiad o effeithiau rheoliadau pelenni plwm ar glybiau chwaraeon yng Nghymru? (OAQ9972)

**Jenny Randerson:** Deallaf fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno rheoliadau i gyfyngu ar y defnydd o belenni plwm yng Nghymru ar 8 Tachwedd 2000. Mae'n bwysig gan y Gweinidog fod y cyrff a'r unigolion sydd yn debygol o gael eu heffeithio yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion, a bydd y Cynulliad yn ymgynghori ar offeryn statudol drafft cyn hir. Bydd y pecyn ymgynghori'n cynnwys gwerthusiad rheoleiddiol, a fydd yn rhoi mwy o fanylion am y cynigion ac yn ystyried y goblygiadau, gan gynnwys costau, i fusnesau ac unigolion.

**Cronfa Cyfleoedd Newydd**

**C22 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr am amcanion y Gronfa Cyfleoedd Newydd yng Nghymru? (OAQ9951) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

**C23 Dafydd Wigley:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol Cymru'n gallu elwa o brosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, a sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan yn y prosiectau hynny? (OAQ9940) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dydd Gŵyl Dewi**

**C24 Helen Mary Jones:** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl ateb oddi wrth Gabinet San Steffan ynghylch cais y Cynulliad Cenedlaethol i bennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc cenedlaethol ar gyfer Cymru? (OAQ9935)

**Jenny Randerson:** Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan ofyn iddo geisio barn ei gydweithwyr yn y Cabinet ar y mater hwn. Bydd Prif Weinidog Cymru'n hysbysu'r Aelodau am y canlyniad cyn gynted ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi gwybod iddo am benderfyniad y Llywodraeth.

**Canolfan y Mileniwm**

**C25 Alun Cairns:** Sut y bydd Canolfan y Mileniwm yn cael ei chynnal ar ôl iddi gael ei sefydlu? (OAQ9993)

**Jenny Randerson:** Mae cynllun busnes Canolfan y Mileniwm yn rhagamcanu sefyllfa weithredu gytbwys. Bydd hynny'n ddibynnol ar gyrraedd cyfres o dargedau busnes ymestynnol ganddi, gan gynnwys y rhai sydd yn ymwneud â sicrhau cynulleidfaoedd theatr a lefelau o weithgaredd adwerthu yn y ganolfan.

**Defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Darpariaethau Chwaraeon**

**C26 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer darpariaethau chwaraeon yng Nghymru? (OAQ9952) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau**

**C27 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ddosbarthiad cronfeydd y gwaddol cenedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth, technoleg a'r celfyddydau yng Nghymru? (OAQ9933) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Pentref Chwaraeon Caerdydd**

**C28 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa bresennol ynghylch pentref chwaraeon arfaethedig Caerdydd? (OAQ9950) [W]

**Jenny Randerson:** Mater i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd yw datblygu'r pentref chwaraeon arfaethedig yn Ferry Road, Caerdydd.

Deallaf fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y datblygiad, yn amodol ar gytundeb cynllunio, nad yw wedi'i lofnodi eto. Mae'r cyngor sir yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei wireddu.

**Ariannu Rygbi Menywod**

**C29 Lorraine Barrett:** A all y Gweinidog wneud datganiad ynghylch ariannu rygbi menywod yng Nghymru? (OAQ9965)

**Jenny Randerson:** Sianelir holl arian chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol drwy Gyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r Cyngor Chwaraeon yn darparu tua £10,000 o gyllid bob blwyddyn i Undeb Rygbi Menywod Cymru at y tîm cenedlaethol, a £5,000 ar gyfer hyfforddwr cenedlaethol rhan amser. At hynny, deallaf fod Undeb Rygbi Cymru hefyd wedi cynyddu ei gymorth i Undeb Rygbi Menywod Cymru eleni mewn ymgais i gefnogi a datblygu'r gamp yng Nghymru.

Mae rygbi menywod yn derbyn mwy o lawer o arian cyhoeddus y pen na'r mwyafrif helaeth o chwaraeon yng Nghymru.

**Prifddinas Diwylliant Ewrop**

**C30 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a Chyngor Sir Caerdydd ynghylch cais Caerdydd i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008? (OAQ9949) [W]

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi cynnal trafodaeth anffurfiol ag Arglwydd Faer Caerdydd ynghylch y cyfraniad y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ei wneud i gais Caerdydd i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

Hefyd, cafodd cyngor Caerdydd wahoddiad i wneud cyflwyniad i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol am ei gais.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### BSE (Effaith ar y Diwydiant Cig Eidion yng Nghymru)

**C6 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith BSE ar y diwydiant cig eidion yng Nghymru? (OAQ9971)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Bu canlyniadau difrifol oherwydd BSE i holl ddiwydiant cig eidion y DU, gan gynnwys Cymru. Fodd bynnag, mae'r clefyd yn y wlad hon yn encilio'n awr oherwydd y rheolaethau iechyd cyhoeddus ac anifeilaidd caeth a roesom ar waith.

### Cyfarfod gydag Aelodau o Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol

**C7 Ann Jones:** Pa faterion a gynhwyswyd yn nghyfarfod diweddar y Gweinidog gydag aelodau o Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol? (OAQ9954) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Oedi Taliadau'r Premiwm Buchod Sugno

**C8 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oedi yn achos taliadau'r premiwm buchod sugno? (OAQ9982)

**Carwyn Jones:** Mae'r oedi cyn rhoi blaendaliadau buchod sugno eleni yn ganlyniad i ddilysu ceisiadau buchod sugno gennym yn erbyn y gronfa ddata tagiau clust ganolog am y tro cyntaf. Mae'r gwiriadau hyn yn ofynnol er mwyn bodloni'r Comisiwn Ewropeaidd ein bod yn gwneud popeth a ellir i gydymffurfio â gofynion olrheiniadwyedd gwartheg. Mae'r gwiriadau cyntaf wedi arwain at yr angen i edrych ymhellach ar nifer sylweddol o geisiadau. Mae'r ymarfer dilysu wedi tynnu sylw at amryw o wallau ar geisiadau ffermwyr, rhifau tag dyblyg, er enghraifft, ac mae'n bosibl bod nifer o anifeiliaid wedi'u hawlio cynt fel anifeiliaid gwryw. Yr ydym yn ceisio cael atebion i'r holl gwestiynau hyn gan ffermwyr unigol.

Ar 28 Chwefror, yr oedd 81 y cant o'r ceisiadau wedi'u prosesu i'w talu ac yr ydym yn anelu at ddatrys cynifer o achosion ag y bo modd erbyn dyddiad targed y siarter, sef 6 Mawrth.

### 'Rural Stress Support in Wales'

**C9 Kirsty Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd yn sgîl cyhoeddi adroddiad FRCA, sef 'Rural Stress Support in Wales'? (OAQ10002)

**Carwyn Jones:** Ar ôl ystyried yr adroddiad, yr wyf wedi cytuno â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai llinell gymorth straen gwledig yw'r modd gorau i fwrw ymlaen â menter straen genedlaethol. Amserlennwyd cyfarfod ar gyfer 1 Mawrth, y gwahoddwyd grwpiau buddiant gwledig iddo. Credaf y bydd y llinell gymorth yn rhoi gwasanaeth buddiol i'r rhai yn y gymuned ffermio.

Y pwysau sydd yn wynebu'r diwydiant ffermio yw rhai o brif achosion y straen, ac mae'r Cynulliad yn cydnabod bod angen cymorth ar ffermwyr a'u teuluoedd os ydynt i ymaddasu a sicrhau dyfodol ymarferol tymor hir iddynt hwy eu hunain. Oherwydd hynny, mae'r Cynulliad, mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru, yn datblygu Cyswllt Ffermio o dan raglenni'r cronfeydd strwythurol a'r cynllun datblygu gwledig i Gymru.

Mae Cyswllt Ffermio yn gynllun cynhwysfawr a fydd yn cynnwys darparu gwasanaethau hyfforddi, gwybodaeth ac ymgynghori, mynediad at grantiau ar gyfer arallgyfeirio a gwella ffermydd a mecanwaith trosglwyddo technoleg yng Nghymru a addesir i ddarparu gwybodaeth ymarferol i ffermwyr ar lefel leol

mewn cysylltiad â ffermydd a grwpiau arddangos. Bydd hefyd yn darparu cyngor busnes un i un, yn rhad ac am ddim, gan gynnwys cynllun datblygu busnes fferm a fydd yn bwrw golwg ar bob agwedd ar fusnes y fferm ac yn helpu ffermwyr i benderfynu sut i fwrw ymlaen â'u busnes.

Yn ogystal â hynny, mae JIGSAW, tîm y mentrau ar y cyd ar gyfer gwasanaethau llywodraeth ledled Cymru, yn ymdrechu i wella dulliau gweithio, gan annog amlfedrusrwydd ymysg staff a datblygu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd. Mae tîm JIGSAW yn gweithio gyda'r Cynulliad i leihau maint y fiwrocratiaeth y mae ffermwyr yn gorfod delio â hi a sicrhau yr ymdrinnir â thaliadau cymhorthdal yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gwaith ar y gweill i sefydlu siopau cyffredinol yn swyddfeydd adrannol y Cynulliad i ddod â'r gwahanol gyrff y mae ffermwyr yn gorfod delio â hwy at ei gilydd, a drwy hynny leihau'r amser a dreuliant a'r ymdrech a wnânt i gael yr wybodaeth a'r cymorth y mae arnynt eu hangen.

### Adolygu'r Ffordd y mae'r Adran Amaethyddiaeth yn Gweithio

**C10 David Davies:** A oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i adolygu'r ffordd y mae'r Adran Amaethyddiaeth yn gweithio? (OAQ9981)

**Carwyn Jones:** Nac oes.

### Iawndal Amaeth-ariannol

**C11 Alun Cairns:** Faint o hawliadau am iawndal amaeth-ariannol oedd heb eu talu ar 1 Chwefror 2001? (OAQ10011)

**Carwyn Jones:** Gwnaethpwyd tua 22,000 o daliadau amaeth-ariannol, ac o blith y rhain yr oedd llai nag 1 y cant heb eu talu ar 1 Chwefror. Yr oedd y rhain yn ymwneud ag achosion profiant, cynhyrchwyr heb ddarparu'r wybodaeth gywir i swyddogion yr Adran Amaethyddiaeth, a newidiadau ym manylion cyfeiriadau a pherchnogaeth ers y taliadau gwreiddiol yn 1999.

### Cynlluniau Ardystio (Y Diwydiant Coedwigaeth yng Nghymru)

**C12 Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau presennol a achoswyd gan gynlluniau ardystio o fewn y diwydiant coedwigaeth yng Nghymru? (OAQ9987)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig (WAQ9313).

### Diogelu a Hyrwyddo Cynhyrchion Organig o Gymru

**C13 Kirsty Williams:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddiogelu a hyrwyddo cynhyrchion organig o Gymru o ganlyniad i'r pryder ynghylch lledaeniad cnydau a addaswyd yn enetig? (OAQ10012)

**Carwyn Jones:** Mae moratoriwm hyd 2003 ar dyfu cnydau a addaswyd yn enetig yn fasnachol ledled y DU, y cytunwyd arno â'r diwydiant. Cynllunnir profion ar gnydau a addaswyd yn enetig yn ofalus er mwyn lleihau'r perygl o groesbeillio cnwd organig neu gonfensiynol.

Mae hyrwyddo cynhyrchion organig o Gymru'n rhan allweddol o strategaeth bwyd-amaeth Cymru. Yn 1999 lansiwyd cynlluniau gweithredu bwyd-amaeth Cymru ar gyfer y sectorau cig oen a chig eidion, llaeth a bwyd organig. Maent yn seiliedig ar weledigaeth gyffredin, sydd yn cysylltu cynnyrch sylfaenol amaethyddiaeth Cymru â marchnadoedd proffidiol gyda llawer mwy o brosesu bwydydd â gwerth ychwanegol.

**Argyfwng BSE yn Ewrop (Effaith ar Gig Eidion Cymru)**

**C14 Peter Black:** Pa effaith y mae argyfwng BSE yn Ewrop yn ei chael ar gig eidion Cymru? (OAQ9928)

**Carwyn Jones:** Hyd yn ddiweddar, yr oedd diwydiant cig eidion Cymru wedi dechrau goresgyn y problemau BSE ac, ers codi'r gwaharddiad ar allforio a osodwyd yn 1999, yr ydym wedi gallu cynnig cig eidion o'r ansawdd uchaf â brand Cymru a sicrwydd fferm gyda chryn lwyddiant.

Oherwydd clwy'r traed a'r genau, mae gwaharddiad ar holl allforion anifeiliaid byw, cig a chynhyrchion eraill o anifeiliaid o'r DU. Gobeithiwn y gellir codi'r cyfyngiadau hyn cyn gynted ag y bo modd.

**Awdurdod Statudol i Erlyn Ffermwyr**

**C15 Gwenda Thomas:** Pa awdurdod statudol sydd gan y Gweinidog i ganiatáu i'r awdurdodau lleol erlyn ffermwyr sydd yn gadael i'w defaid grwydro'n rhydd yn gyson yng nghymunedau cefn gwlad Cymru? (OAQ9979)

**Carwyn Jones:** Dim. Mae'r Ddeddf Anifeiliaid 1971 yn gwneud darpariaeth, ymysg pethau eraill, mewn perthynas ag atebolrwydd sifil am ddifrod a wneir gan anifeiliaid.

**Coed Cymru (Hybu Coetiroedd Cymru)**

**C16 Glyn Davies:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog drafod ei gynlluniau i hybu coetiroedd Cymru â Choed Cymru? (OAQ9998)

**Carwyn Jones:** Y tro diwethaf imi drafod fy nghynlluniau i hybu coetiroedd Cymru â Choed Cymru oedd 31 Ionawr. Cyfarfu Prif Weinidog Cymru hefyd â Choed Cymru ar 23 Chwefror a bwriadaf gyfarfod â Choed Cymru eto ar 14 Mawrth.

**Lleddfu Strès ac Iselder yn y Cymunedau Gwledig**

**C17 David Lloyd:** Pa fesurau sydd wedi'u sefydlu i leddfu problemau strès ac iselder sydd yn effeithio ar gymunedau gwledig? (OAQ9988)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn bwrw ymlaen, ar y cyd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, â chynigion ar gyfer llinell gymorth straen gwledig, sydd yn seiliedig ar y llinell gymorth iechyd meddwl CALL a oedd y tu hwnt o lwyddiannus, ond a fydd â hunaniaeth ar wahân. Amserlennwyd cyfarfod ar gyfer 1 Mawrth gyda grwpiau buddiant gwledig, swyddogion y Cynulliad a chynrychiolwyr y llinell gymorth straen gwledig. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi gwasanaeth buddiol i'r rhai oddi mewn i'r gymuned ffermio.

**Hybu Cynnyrch o Gymru**

**C18 Rhodri Glyn:** Sut y mae'r Gweinidog yn hybu cynnyrch o Gymru? (OAQ9976)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn hybu cynnyrch o Gymru pryd bynnag y bo modd. Cyfarwyddiaeth fwyd y WDA, sydd yn gyfrifol am gyflawni strategaeth bwyd-amaeth y Cynulliad Cenedlaethol, sydd yn arwain ar ddatblygu economaidd yn y sector bwyd-amaeth, yn hybu cynnyrch o Gymru ac yn rhoi ar waith y cynlluniau gweithredu cig oen a chig eidion, llaeth a bwyd organig.

Hybir cig oen a chig eidion hefyd gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig, ac mae'r Comisiwn Cig a Da Byw yn hyrwyddo gwell effeithlonrwydd yn niwydiannau da byw a chynnyrch da byw Prydain Fawr a hefyd yn hyrwyddo bwyta cig a chynnyrch cig. Hybir cynnyrch o Gymru mewn sioeau

amaethyddol, ffeiriau bwydydd, ac arddangosfeydd yn y DU a thramor, ym marchnadoedd y ffermwyr ac yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

**Arferion Cyflogaeth yn Ffermydd Cymru**

**C19 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ar arferion cyflogaeth yn ffermydd Cymru gyda chynrychiolwyr gweithwyr amaethyddol yng Nghymru? (OAQ9967)

**Carwyn Jones:** Yr wyf bob amser yn barod i gyfarfod â chynrychiolwyr gweithwyr amaethyddol ond, hyd yn hyn, ni chysylltwyd â mi gyda golwg ar gynnal cyfarfod.

**Menywod sydd yn Ffermio yng Nghymru**

**C20 Helen Mary Jones:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gefnogi ac annog menywod sydd yn ffermio yng Nghymru? (OAQ9969)

**Carwyn Jones:** Mae'r mesurau grant, cymorth a chyngor presennol ar gael i bob rhan o'r gymuned ffermio.

**Cefnogi'r Diwydiant Defaid yng Nghymru**

**C21 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y mesurau sydd wedi'u sefydlu i gefnogi'r diwydiant defaid yng Nghymru? (OAQ9970)

**Carwyn Jones:** Y prif fesur sydd ar waith i gefnogi'r diwydiant defaid yng Nghymru yw'r cynllun premiwm blynyddol defaid. Hwnnw yw prif elfen cyfundrefn cig defaid y Comisiwn Ewropeaidd, ac mae'n werth tua £90 miliwn y flwyddyn i Gymru.

Disgwylir cynigion y Comisiwn ar gyfer diwygio'r gyfundrefn cig defaid cyn hir a gwahoddir yr aelod wladwriaethau i ymateb wedyn. Bwriadaf gymryd rhan weithredol wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn hon, boed hynny ar lefel Cymru, y DU neu'r UE, er mwyn sicrhau'r fargen orau i holl gynhyrchwyr Cymru.

Mae'r cynllun Tir Mynydd newydd hefyd o fantais i ffermwyr defaid tir uchel yng Nghymru.

**Iawndal Amaeth-ariannol (Cyfarfod â'r Gweinidog Amaeth)**

**C22 Mick Bates:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog gyfarfod â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i drafod iawndal amaeth-ariannol ac a wnaiff ddatganiad ar y mater hwn? (OAQ9955)

**Carwyn Jones:** Ceisir cymeradwyaeth ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd i dalu elfennau dewisol iawndal amaeth-ariannol ar gyfer y sectorau defaid, cig eidion a llaeth.

**Triniaeth Anifeiliaid mewn Lladd-dai**

**C23 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y caiff anifeiliaid eu trin mewn lladd-dai yng Nghymru? (OAQ10003) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Lleihau Biwrocratiaeth yn yr Adran Amaethyddiaeth**

**C24 Alun Cairns:** Pa gamau a gymerwyd gan y Gweinidog i leihau'r biwrocratiaeth o fewn yr Adran Amaethyddiaeth? (OAQ10004)

**Carwyn Jones:** Yr wyf eisoes wedi cyflwyno amrediad o fesurau i leihau biwrocratiaeth, gan gynnwys darparu llyfrau cofnodion buchesi a diadelloedd am ddim i gynhyrchwyr gwartheg a defaid; rhedeg clinigau cofnodion a nosweithiau agored mewn mannau ledled Cymru i helpu ffermwyr i gael eu dogfennau'n iawn; lleihau ffurflen y cynllun premiwm arbennig eidion o 12 i bedwar tudalen a chefnogi'r argymhellion a geir yn adroddiad Maclean ar yr angen i leihau baich y taliadau hylendid ar ladd-dai llai.

Yn Hydref 2000, cyhoeddais gynllun gweithredu arolwg cwsmeriaid ffermio Cymru, sydd yn nodi'r camau a gymerir i ymdrin ymhellach â'r mater hwn.

### Gwella Cysylltiadau Trafnidiaeth mewn Ardaloedd Gwledig

**C25 Janet Ryder:** Pa fentrau sydd ar y gweill i wella cysylltiadau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig i annog arallgyfeirio economaidd gwledig? (OAQ10001) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Cyhoeddodd yr holl awdurdodau lleol gynlluniau trafnidiaeth lleol yn Awst 2000. Un o amcanion y cynlluniau trafnidiaeth lleol yw ystyried y rhwydwaith trafnidiaeth lleol a'i rôl wrth gefnogi economi effeithlon, a chreu twf economaidd cynaliadwy mewn lleoliadau priodol. Mae copïau o'r holl gynlluniau trafnidiaeth lleol wedi eu gosod yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae grant trafnidiaeth ar gael i gynorthwyo prosiectau trafnidiaeth awdurdodau lleol a rhaid iddo fod yn elfen hanfodol yng nghynllun trafnidiaeth lleol yr awdurdod lleol priodol. Rhaid iddynt ymdrin yn uniongyrchol â materion hygyrchedd neu leihau dibyniaeth ar y car drwy gymell symudiad moddol. Bydd angen hefyd i'r prosiectau gynnig manteision ehangach o ran datblygu economaidd, diogelwch ffyrdd, a'r amgylchedd, gan leihau'r torri ar draws cymunedau a gwella'r dewis a'r ansawdd mewn teithio. Rhoddir cymorth ychwanegol drwy'r grant cymhorthdal bysiau.

Ar 11 Ionawr 2001 cyhoeddais becynnau cymorth mawr gwerth £300 miliwn ar gyfer buddsoddi gan awdurdodau lleol mewn trafnidiaeth dros y pum mlynedd nesaf, a rhoddir cymorth i lawer o brosiectau mewn ardaloedd gwledig. Mae copi o'r cyhoeddiad hwnnw ar gael yn y Llyfrgell.

Bydd gwelliannau i gefnffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at wella'r cyfle ar gyfer datblygu economaidd, gan gynnwys yr A55 ar draws Ynys Môn, yr A487 rhwng Llanwnda a Llanllyfni, yr A470 o Ddolwyddelan i Bont yr Afanc a ffordd osgoi Sageston-Redberth ar yr A477.

### Adolygiad Pysgodfeydd y Môr

**C26 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerwyd hyd yn hyn gydag Adolygiad Pysgodfeydd y Môr ers ei ateb ar 9 Tachwedd? (OAQ9926)

**Carwyn Jones:** Ar ôl ymgynghori, bwriadaf gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig cyn hir ar ymateb arfaethedig y Cynulliad i'r astudiaeth.

### Ychwanegu Gwerth i Gynnyrch Amaethyddol Sylfaenol

**C27 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ychwanegu gwerth i gynnyrch amaethyddol sylfaenol? (OAQ9953)

**Carwyn Jones:** Mae ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddiaeth Cymru yn rhan allweddol o strategaeth amaeth-bwyd Cymru. Yn 1999 lansiwyd cynlluniau gweithredu bwyd-amaeth Cymru ar gyfer y sectorau cig oen a chig eidion, llaeth a bwyd organig. Bwriedir i'r cynlluniau helpu i ddatblygu dyfodol hyfyw ar gyfer diwydiant bwyd Cymru. Maent yn seiliedig ar weledigaeth gyffredin, sydd yn cysylltu cynnyrch sylfaenol amaethyddiaeth Cymru â marchnadoedd proffidiol gyda mwy o brosesu bwydydd â gwerth ychwanegol.

Caiff y cynlluniau eu gweithredu a'u monitro gan y bartneriaeth bwyd-amaeth ar y cyd â chyfarwyddiaeth fwyd y WDA a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried dulliau o ymestyn y strategaeth bwyd-amaeth i helpu ffermwyr i ddatblygu eu busnesau ac mae'n asesu posibiliadau masnachol nifer o sectorau eraill.

**Dairy Crest**

**C28 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda gweithwyr a rheolwyr Gwaith Dairy Crest, Tre Ioan, Caerfyrddin? (OAQ9924)

**Carwyn Jones:** Cyfarfûm â phrif weithredwr Grŵp Dairy Crest, John Houliston, ar 1 Chwefror ac yr wyf mewn cysylltiad hefyd ag Eurig Jones, rheolwr y ffatri yng ngwaith Caerfyrddin. Bydd y Gwasanaeth Cyflogi a Chyngor Hyfforddi a Menter Gorllewin Cymru yn rhoi pob cymorth i helpu'r rhai yn Nhre Ioan a ddiswyddir i ddod o hyd i waith arall. Wrth gwrs, yr wyf yn barod i gyfarfod â gweithwyr yn y gwaith os dymunant hynny.

**Dyddiadau ar Gyfer Talu Cymorthdaliadau**

**C29 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog weithredu system o ddyddiadau penodol ar gyfer talu cymorthdaliadau? (OAQ9961) [R]

**Carwyn Jones:** Nodir y dyddiadau statudol ar gyfer rhoi taliadau yn neddfwriaeth yr UE a/neu'r ddeddfwriaeth ddomestig sydd yn berthnasol i bob cynllun. Yn ogystal â hynny, mae Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn anelu at roi taliadau o fewn targedau'r siarter ar gyfer y cynlluniau canlynol:

- y cynllun premiwn arbennig eidion a'r cynllun premiwm buchod sugno: blaendaliadau erbyn 6 Mawrth ar ôl blwyddyn y cynllun .
- y cynllun premiwm blynyddol defaid: taliadau terfynol erbyn diwedd Ebrill ar ôl blwyddyn y cynllun, neu os na phennir y gyfradd gan y Gymuned Ewropeaidd tan ar ôl 1 Ebrill, taliadau terfynol o fewn un mis ar ôl cyhoeddi'r gyfradd yn swyddogol.

Ni fwriadaf roi unrhyw ddyddiadau penodol ychwanegol ar waith ar gyfer talu cymorthdaliadau.

**Ychwanegu Gwerth i Wlân Cymreig yng Nghymru**

**C30 Glyn Davies:** Beth yw polisi'r Gweinidog ar ychwanegu gwerth i wlân Cymreig yng Nghymru? (OAQ10000)

**Carwyn Jones:** Mae prosesu gwlân â gwerth ychwanegol yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y sector defaid yng Nghymru ac mae arian ar gael i gynorthwyo gweithgaredd o'r math hwn drwy Flaenoriaeth 5 yn Amcan 1 a'r cynllun datblygu gwledig i Gymru. Y ddau brif ddull cynorthwyo yw:

- y cynllun grant prosesu a marchnata, a weithredir gan y WDA, ar gyfer prosiectau sydd yn costio dros £40,000;
- y cynllun grant menter fferm, sydd i'w weithredu gan Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fydd yn cynorthwyo â datblygiadau sydd yn costio dros £1,500 ar ffermydd.

Yn ogystal â hynny, bydd cymorth ar gael i farchnata cynnyrch gwlân â gwerth ychwanegol. Gellid hefyd ystyried rhoi cymorth i ddatblygu cynnyrch, fel rhan o brosiect ehangach. Mae cyfle hefyd i gynorthwyo ymchwil a datblygu drwy Flaenoriaeth 2 yn Amcan 1 mewn achosion lle y gellir dangos cysylltiadau amlwg â chymhwysiad ymarferol ar gyfer canlyniadau prosiect o'r fath.